



Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru

Taliadau Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru ar Fy Nhreth a'm Budd-daliadau

Budd-daliadau sy'n Dibynnu ar Brawf Modd

Ar 23 Hydref 2017, daeth Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Gwaed Heintiedig a Thalidomide) 2017 i rym. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw daliadau a gawsoch gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn cael eu hystyried wrth gyfrifo'ch incwm neu unrhyw gyfalaf (fel cynilion). Os ydych chi'n gwneud cais ar hyn o bryd i'r Adran Gwaith a Phensiynau am unrhyw rai o'r budd-daliadau canlynol sy'n dibynnu ar brawf modd, ni fydd angen i chi gyfeirio at eich taliadau gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn eich cais:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Budd-dal Tai.

Y Dreth Gyngor

O 1 Tachwedd 2017, gall unrhyw daliad gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, gan gynnwys cyfandaliadau unigol, gael eu hanwybyddu wrth gyfrifo incwm ar gyfer Gostyngiad yn y Dreth Gyngor. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw symiau blaenorol a gafwyd gan 5 cynllun blaenorol y DU. Os bydd angen copi o'r cyfarwyddyd interim ar Ostyngiad yn y Dreth Gyngor arnoch, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau yn gysylltiedig â hyn, cysylltwch â'ch cynghorydd pwrpasol ar hawliau lles yng Nghynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru.

Y Dreth Incwm

Ar 23 Hydref 2017, daeth Gorchymyn Cynlluniau Gwaed Heintiedig (Cymhwysio Adrannau 731, 733 a 734 Deddf Treth Incwm (Masnachu ac Incwm Arall) 2005) 2017 i rym. Mae hyn yn golygu nad oes treth i'w thalu ar daliadau rheolaidd gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. Felly, nid oes angen i chi ddatgan y taliadau ar unrhyw ffurflen dreth incwm i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM), ac nid oes ar Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru angen i chi dynnu unrhyw dreth incwm o swm eich taliad.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

Sylwch: nid yw cyfandaliadau a grantiau unigol gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru wedi'u cynnwys yn y gorchymyn, gan nad ydynt yn destun Treth Incwm.

Please note; lump sum payments and one off grants from WIBSS are not included in the order, as they are not subject to Income Tax.

Ymholiadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, CThEM neu'ch Awdurdod (Cyngor) Lleol

Os cewch unrhyw ymholiadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu'ch Cyngor Lleol am eich incwm neu'ch cyfalaf, gallwch gyfeirio at y canllawiau hyn yn y lle cyntaf.

Yn sgil hyn, os cewch unrhyw anawsterau neu wahoddiad i gyfweliad ffurfiol, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru cyn gynted â phosibl. Gallwn roi llythyr i chi'n cadarnhau pob taliad a gafwyd o gynllun cymeradwy, ynghyd â chadarnhad ysgrifenedig o'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n eithrio'ch taliadau gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru.